

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Ein gweledigaeth yw darparu tegwch i'n holl ddysgwyr. Yn aml, mae ein dysgwyr wedi profi amgylchiadau heriol mewn ysgolion prif ffrwd, am amrywiaeth o resymau gwahanol. Bydd ein holl ddysgwyr wedi profi anfantais mewn rhyw ffordd, siâp neu ffurf. Ein nod yw darparu profiadau dysgu gwych a chwricwlwm gwych, wedi'i ategu gan ofal, cefnogaeth ac arweiniad rhagorol, er mwyn sicrhau y gall ein holl ddysgwyr ffynnu. Rydym am i'n dysgwyr gael profiadau gwych, yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr ystyr ehangach, i'w cefnogi i wneud cynnydd mesuradwy o'u mannau cychwyn unigol, yn academiaidd ac yn gymdeithasol. Rydym am i'n dysgwyr allu cael mynediad at ystod eang o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ôl eu hanghenion, a fydd yn cefnogi'r cynnydd hwn mewn sawl maes allweddol. Rydym am ddatblygu staff hyfforddedig a medrus iawn i sicrhau bod ein hymyriadau a'n cefnogaeth yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Canlyniadau bwriadedig

Mae hyn yn egluro'r canlyniadau yr ydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Meini Prawf Llwyddiant	Monitro a Gwerthuso
Mae pob disgybl yn gwneud cynnydd mewn sgiliau Trawsgwricwlaidd, lefelau metawybyddiaeth a hunanreoleiddio, trwy ddarparu hyfforddiant i'r holl staff ar strategaethau addysgu effeithiol	Monitro cynnydd disgyblion ar adegau adolygu allweddol drwy gydol y flwyddyn mewn Sgiliau Trawsgwricwlaidd. Adolygiad a gwerthusiad systematig o ansawdd profiadau addysgu a dysgu drwy brosesau adolygu cadarn.
Mae pob disgybl yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn mewn darllen, gyda'r disgyblion mwyaf difreintiedig yn gallu cael mynediad at ymyrraeth a chefnogaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth	Monitro cynnydd disgyblion mewn darllen, gan ddefnyddio data sylfaenol drwy brofion 'YARC' a thystiolaeth o ymyrraeth 'Literacy Junction'.
Mae pob disgybl yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn mewn llafaredd, gyda'r holl staff yn cael eu huwchsgilio mewn addysgu llafaredd effeithiol a'r disgyblion mwyaf difreintiedig yn gallu cael mynediad at ymyrraeth a chymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.	Monitro cynnydd disgyblion mewn llafaredd, drwy arsylwi ac olrhain yn yr ystafell ddosbarth.
Mae pob disgybl, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig, yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi ac yn cael mynediad at gefnogaeth ac ymyrraeth therapiwtig sy'n tystio i gynnydd mewn lles cymdeithasol ac emosiynol	Gweithgareddau llais disgyblion, dadansoddi ymgysylltiad mewn gweithgareddau cyfoethogi ac olrhain SEMH.

Mae hyn yn manylu ar sut rydym yn bwriadu gwario ein Grant Datblygu Pobl **y flwyddyn academiaidd hon** i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd a restrir uchod.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £9000

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Dysgu Proffesiynol i staff ar strategaethau addysgu a dysgu, gan ganolbwyntio ar fetawybyddiaeth a hunanreoleiddio	Metawybyddiaeth a hunanreoleiddio (effaith uchel)
Dysgu Proffesiynol i'r holl staff ar ymyrraeth darllen 'Literacy Junction' a chlustnodi awr o amser CD ym mhob canolfan UCD bob dydd ar gyfer ymyrraeth darllen	Strategaethau deall darllen (effaith uchel)
Dysgu Proffesiynol i'r holl staff yn Voice 21	Ymyriadau iaith lafar (effaith uchel)

Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned (gan gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £1000

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Amser staff wedi'i glustnodi (MCP/TA) i feithrin cysylltiadau â Swyddogion Cyswllt Teuluoedd yr ALI i feithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth	Ymgysylltiad rhieni (effaith uchel)

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo'n berthnasol, lechyd a Llesiant, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £31,000

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Dysgu Proffesiynol i'r holl staff ar Ddulliau Perthynasol ac i'r ysgol ddod yn Ysgol ardystiedig sy'n Ystyriol o Drawma	Dysgu cymdeithasol ac emosiynol (effaith gymedrol)
Datblygu gweithgareddau Cyfoethogi hygyrch y tu allan i'r ystafell ddosbarth ar gyfer pob dysgwr	Dysgu cymdeithasol ac emosiynol (effaith gymedrol)
Dysgu Proffesiynol i'r holl staff ar ddulliau Osgoi Ysgol ar Sail Emosiynol, a datblygu 'hyrwyddwr' Osgoi Ysgol ar Sail Emosiynol i gefnogi dysgwyr meddygol Addysg Heblaw yn yr Ysgol	Dysgu cymdeithasol ac emosiynol (effaith gymedrol)
Datblygu mynediad i'r dysgwyr mwyaf difreintiedig at gefnogaeth therapiwtig sy'n seiliedig ar dystiolaeth	Dysgu cymdeithasol ac emosiynol (effaith gymedrol)